COFIO CYN CYCHWYN

Rydym eisiau rhannu ein cornel hyfryd o'r byd â chi a'r cenedlaethau i ddod. Oherwydd hyn, rydym yn cefnogi twristiaeth gynaliadwy a chyfrifol sy'n helpu i adfywio'r fro, ac rydym yn gobeithio y byddwch chithau'n gwneud hynny hefyd. Cymerwch funud i ddarllen **'Cofio Cyn Cychwyn'** er mwyn i chi allu chwarae eich rhan. Diolch yn fawr iawn.

Peidiwch â bod ar frys i adael!

Holwch o gwmpas. Efallai nad ydych yn sylweddoli bod cymaint i'w wneud ...

Galwch heibio!

Mae llawer o fusnesau lleol ym Mhen Llŷn a byddent wrth eu bodd yn eich gweld. Wedi'r cyfan, y cymunedau lleol hyn sy'n darparu llawer iawn o wasanaethau i wneud eich arhosiad yn un gwerth chweil.

Cadwch eich ci ar dennyn

Ni chaniateir cŵn ar rai o lwybrau cerdded oherwydd presenoldeb anifeiliaid fferm. Gofynnwn yn garedig i chi gadw cŵn ar dennyn ar yr holl lwybrau, traethau a gwlyptiroedd eraill.

Parchwch y bywyd gwyllt

Mae gennym adar arbennig iawn yn ymgartrefu ym Mhen Llŷn. Os byddant yn codi o'u nyth mewn dychryn, gall yr wyau neu'r cywion oeri neu ddenu anifeiliaid ac adar ysglyfaethus. Os byddant yn cael eu dychryn o'u tiroedd bwydo – fel y traethlin neu'r aberoedd – byddant yn llwgu neu hyd yn oed yn gadael yr ardal am byth. Cofiwch hyn wrth fwynhau'r awyr agored.

Arhoswch y llwybr

Arhoswch ar y llwybrau sydd wedi eu marcio. Gall mynd oddi ar y llwybr arwain at sathru planhigion ac anifeiliaid a chynyddu'r erydiad yn ein tirweddau a'n cynefinoedd gwerthfawr.

Cofiwch gau'r giât

Os bydd llwybr yn mynd drwy giât sydd wedi cau, dylech ei chau ar ôl mynd trwyddi.

Edrychwch ond peidiwch â chyffwrdd

Blodau, bywyd morol, madfallod, ffosiliau – gall fod yn gryn demtasiwn i godi neu gasglu rhai o'n fflora a'n ffawna bregus neu brin ond gadewch llonydd iddynt. Cofiwch, pe bai'r un a'u gweldodd och blaen wedi eu codi, ni fyddech chi wedi gallu eu gweld. Tynnwch lun a rhannu'r gyfaredd yn y ffordd honno.

Cofiwch anadlu

Gall bywyd fod yn galed. Arafwch a gwerthfawrogwch y golygfeydd a'r synau o'ch cwmpas.

Dim bwydo

Peidiwch â bwydo'r adar a'r anifeiliaid gwyllt.

Cymerwch ran

Os ydych eisiau mynd gam ymhellach, beth am gyfrannu eich lluniau o fyd natur i lwyfannau cofnodi parhaus fel Cofnod.

Gadael dim ar eich ôl

Mae dyfroedd yn rhan fawr o'n tirwedd. O gorsydd i nentydd, afonydd, llynnoedd a'r moroedd. Gofynnwn i chi ein helpu ni i'w cadw'n lân drwy beidio â'u defnyddio i gael gwared ar sbwriel neu i olchi bocsys bwyd neu boteli diod.

Gadewch lonydd

Os ydych chi'n dod o hyd i anifail sydd wedi'i anafu neu wedi'i ollwng, peidiwch â rhuthro ato. Gadewch iddo fod. Mae rhai anifeiliaid ifanc, fel ceirw ifainc neu forloi bach, yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain tra bo'r anifeiliaid hŷn yn bwydo, a byddant yn dod yn ôl yn fuan. Os ydych chi'n bryderus iawn, cysylltwch ag arbenigwr bob amser. Mae hyn yn wir am famaliaid ac adar eraill hefyd. Mae cyngor gwych ar gael yma: Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.



Efallai eich bod yn dod o'r ardal gyfagos neu efallai eich bod yn ymweld o rhywle ym mhellach i ffwrdd. Gobeithio y cewch chi brofiad gwych ac y byddwch yn dod yma eto. Nid dim ond cyrchfan i dwristiaid yw'r ardal hon. Rydyn ni'n byw ac yn gweithio ac yn chwarae yma drwy gydol y flwyddyn. Dydyn ni'n lwcus!? Byddwch yn ystyriol o'r preswylwyr yn ystod eich arhosiad.

live

www.ecomuseumlive.eu
live@ucc.ie

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund